# Datganiad Blynyddol 2022/2023

## Proffil y Darparwr

### Gwybodaeth Darparwr i'w chyhoeddi

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â gwybodaeth a oedd gan AGC am y darparwr hwn a'i wasanaethau cysylltiedig ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r adran hon wedi cael ei llenwi i chi. Nid oes camau gweithredu i'w cwblhau. Caiff y wybodaeth hon a ddangosir ei chynnwys yn y Datganiad Blynyddol cyhoeddedig.

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr: | ANTUR WAUNFAWR |
| Roedd y darparwr wedi'i gofrestru ar: | 26/01/2021 |
| Mae'r canlynol yn rhestru amodau'r darparwr: | Nid oes unrhyw amodau a osodwyd yn gysylltiedig â'r darparwr hwn |
| Y gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarparwyd gan y darparwr hwn oedd: | Antur Waunfawr |

| Antur Waunfawr | |
|---|---|
| Math o wasanaeth | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Math o Ofal | Dim |
| Dyddiad Cymeradwyo | 26/01/2021 |
| Unigolyn/Unigolion Cyfrifol | |
| Rheolwyr | Sian Williams |
| Ardal Partneriaeth | Gogledd Cymru |
| Amodau Gwasanaeth | Nid oes unrhyw amodau yn gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn |

### Hyfforddiant a Chynllunio Gweithlu

| | |
|---|---|
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant y staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Rydym yn buddsoddi ac yn datblygu ei gweithle gofal ar gyfer y dyfodol a datblygu talent mewnol drwy hyfforddi a datblygu ein staff. Mae gan Antur Waunfawr restr o hyfforddiant craidd mae rhaid i'r staff gwbwlhau. Mae ein staff gofal i gyd wedi cofrestru gyda GCC. Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi datblygu talent mewnol staff drwy gefnogi aelod staff i fynychu hyfforddiant arbenigol yn y maes meddyginiaeth; mae'r Is-reolwraig gofal wedi ei chymhwyso i hyfforddi ein staff gofal yn fewnol nawr. Da ni hefyd yn darparu hyfforddiant arbenigol yn unol â gofynion gofal yr unigolion. Rydym hefyd yn adnabod ac yn buddsoddi mewn hyfforddiant uwch i Rheolwyr y gwasanaeth e.e. Diogelu lefel uwch. |
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer recriwtio a chadw'r staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Yn ystod y flwyddyn arianol ddiwethaf mae Antur Waunfawr wedi buddsoddi arian i wella telerau cyflogaeth ein staff. Gwnaethom sefydlu trefn gyrfa clir gyda cyflog uwch sydd yn galluogi staff gofal i anelu i fod yn weithwyr gofal uwch. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gydag adran recriwtio Cyngor Gwynedd er mwyn denu rhagor o weithwyr cefnogol i'r maes gofal ac yn presenoli mewn sawl ffair swyddi lleol a hysbysebu ar ein cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi gwneud yn siwr ein bod ni yn talu y cyflog byw yn llawn i pob gweithiwr gofal cofrestredig. Mae Antur Waunfawr hefyd wedi cyflogi swyddog marchnata allanol er mwyn gwella y drefn o recriwtio staff. |

## Proffil Gwasanaeth

### Manylion y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Enw'r Gwasanaeth | Antur Waunfawr |

| | |
|---|---|
| Rhif ffôn | 01286650721 |
| Beth yw'r brif iaith/ieithoedd a ddefnyddir i ddarparu eich gwasanaeth? | Cyfrwng Cymraeg |
| Ieithoedd eraill a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth | 100% o Staff Antur Waunfawr yn cyfathrebu yn ddwy ieithog a Cymraeg yw ein iaith gweithredu a gweinyddu. Holl bolisiau a g weithdrefnau AW yn ddwy ieithog, a'r tudalennau gwe. Hyfforddi ant drwy gyfrwng y Gymraeg. Staff yn defnyddio Makaton i gyfa threbu ac amserlenni gweledol a cortynnau gwddf hefo symbola u. Wedi creu rôl newydd - sef hyrwyddwr cyfathrebu. AW wedi b uddsoddi i hyfforddi staff ar gyfer gweithio gyda therapydd llefe rydd iaith i gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda ein hunigolion. |

## Darpariaeth Gwasanaeth

### Pobl a Gefnogir

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y bobl y gwnaeth y gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | 11 |

### Ffioedd a Godir

| | |
|---|---|
| Isafswm y gyfradd fesul awr a oedd yn daladwy dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 19.69 |
| Uchafswm y gyfradd fesul awr a oedd yn daladwy dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 19.69 |

### Cwynion

| | |
|---|---|
| Beth oedd cyfanswm y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 0 |
| Nifer y cwynion gweithredol sydd heb eu penderfynu | 0 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau | 0 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau'n rhannol | 0 |
| Nifer y cwynion na chawsant eu cadarnhau | 1 |
| Pa drefniadau a wnaed ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r modd y cafodd y gwasanaeth ei redeg yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | Rydym yn defnyddio gwasanaeth adfocatiaeth er mwyn ymgyngho ri ag Unigolion. Caiff y wybodaeth a gesglir ei ddadansoddi er mw yn gweithredu ar ddatrys unrhyw faterion sy'n codi o'r holiaduron; caiff y ganmoliaeth hefyd ei nodi, ac fe adolygir y gwasanaeth yn erbyn canlyniadau.Dadansoddwyd yr holiaduron i sicrhau ansawd d a'u rhoi yn yr adroddiad Adolygiad o Ansawdd y Gofal. Ym Mis Mehefin 2022, fe wnaeth y person cyfrifol ymweld â'r holl unigolio n er mwyn cwblhau holiaduron.Cafwyd adborth cynhwysfawr, gan ddilyn templed cwestiynau holiadur pwrpasol ar gyfer yr ymweliad au Unigolyn cyfrifol. Trafodwyd canlyniadau'r ymweliadau tai pers on cyfrifol mewn cyfarfod Rheoli er mwyn gweithredu ar unrhyw wy bodaeth/ welliant a godwyd.Gwnaethom ymgysylltu ag Unigolion d efnyddwyr Gwasanaeth Antur Waunfawr ar ran Cyngor Gwynedd yn Hydref 2022 – gan ofyn i'r unigolion lenwi holiaduron (Holiadur Adborth Grant Cymorth Tai Gogledd Cymru). Pwrpas yr holiaduro n oedd cael adborth er mwyn llywio a siapio gwasanaethau ein da rparwr (CG) yn y dyfodol a chynnal y berthynas agos cydweithiol. Rydym yn ymgynghori â'r unigolion parthed canlyniadau cefnogi Pobl yn chwarterol ac yn bwydo'r adborth rhanbarthol ar y we. |

### Cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Nodwch unrhyw ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) | Ie |
| Triniaeth ac Addysg Plant sydd ag Awtistiaeth ac Anabledd Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH) | Na |
| Makaton | Ie |

| | |
|---|---|
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | Ie |
| Arall | Ie |
| Rhestrwch ffurfiau 'eraill' o gyfathrebu di-eiriau a ddefnyddir | Prosesu synhwyraidd |

Datganiad Cydymffurfio

Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol baratoi'r datganiad cydymffurfio.

Mae AGC wedi cyhoeddi canllawiau ar gwblhau'r adolygiad o ansawdd y gofal sy'n cynnwys cyngor ar yr hyn y gellid ei gynnwys yn y datganiad cydymffurfio.

Trefnwch eich datganiad cydymffurfio'n unol â'r pedwar maes llesiant isod.

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt. | Ymgynghorwyd â defnyddwyr ynglŷn â'r modd y cafodd y gwasanaeth ei redeg yn ystod y flwyddyn. Gofynnwyd i eiriolwr annibynnol eu holi'n ddi-ragfarn, cynhaliwyd ymweliadau â'r tai gan yr UC a cafwyd gyswllt ddyddiol â'r unigolion gan y Rheolwyr. Holwyd eu barn, rhoi dewis iddynt o ran eu gofal a'u cymorth a'u holi am unrhyw weithgareddau yr hoffent fynychu yn ystod cyfarfodydd tai. Dadansoddwyd y wybodaeth a gweithredwyd ar y wybodaeth a gasglwyd, ysgrifennwyd adroddiadau yn dilyn yr ymweliadau/cyfarfodydd/derbyn adborth holiaduron. Cynhaliwyd Cyfarfod Aml Ddisgyblaethol -sef cyfarfod hefo arbenigwyr yn y maes gofal er mwyn cael cyngor ac adborth o ran y gwasanaeth/ lle i wella. Gwahoddwyd unigolion i fynychu cyfarfodydd tîm a chymerwyd gofnodion o'r hyn a drafodwyd ac unrhyw welliannau oedd eu hangen o ran eu gofal, cymorth neu gyfleoedd yn ogystal â dymuniadau'r unigolion. Dilynwyd ein proses o yrru holiaduron allan i ddefnyddwyr y gwasanaeth/ teuluoedd/ofalwyr/gweithwyr proffesiynol. Dadansoddwyd y data a gweithredwyd ar ddatrys cwynion/ materion oedd yn codi, nodwyd y ganmoliaeth a dderbyniwyd, ac adolygwyd y gwasanaeth yn erbyn canlyniadau. Rhannwyd ein datganiad o ddiben gyda'r unigolion. Maent yn gwybod fod ganddynt yr hawl i gwyno neu newid unrhyw staff os dymunir pe na baent yn cyd-dynnu. Cofnodwyd dystiolaeth yn ' Access Planning' i fonitro cyfleoedd unigolion. Gwneuthpwyd adroddiadau Cefnogaeth Weithgar, cynigwyd amrywiaeth o weithgareddau a threfnwyd digwyddiadau mewnol ac allanol mewn partneriaeth â mudiadau/ sefydliadau allanol. Rydym yn cynnal holiaduron chwarterol er mwyn monitro canlyniadau gwasanaeth cefnogi pobl – sy'n cael ei fwydo'n ôl i'r Cyngor. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i gyfarfodydd rheolwyr y tai. Mae cyfle yma i holi'r unigolion am eu gofal a'r gweithgareddau y maent wedi bod yn eu gwneud. Mae'n bosib gweld patrwm dros amser, gan fesur eu canfyddiad am bynciau megis eu diogelwch personol a chymunedol, cynnydd yr unigolion ac unrhyw beth sydd wedi cyfyngu ar gynnydd. Mae pwyslais yma ar hyrwyddo annibyniaeth a sgiliau rheoli tŷ, rheoli perthynas, teimlo'n rhan o'r gymuned, hyrwyddo cynnydd economaidd a rheolaeth ariannol, cymryd rhan mewn addysg/ dysgu, iechyd a lles, monitro iechyd meddyliol, a phwyslais ar dywys ffordd o fyw iach ac egniol. Mae dilyniant i'r holl yr ydym yn ei wneud, rydym yn casglu tystiolaeth ein bod yn gwrando, yn gwella'n barhaus ac yn gweithredu ar ddymuniadau unigolion. Un agwedd pwysig i sicrhau bod unigolion yn cael pob cyfle i fyw bywydau llawn yw'r proses o greu gweithdrefnau a pholisiau o ran rheoli risg a chynnig profiadau gwahanol i unigolion. Llwyddwyd i gynnig cyfleoedd fel canwio, saethyddiaeth a gwyliau drwy lunio asesiadau risg cynhwysfawr, cynllunio manwl a chymryd risgiau cadarnhaol. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn hapus ac yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol yn barhaus. Ar gyfer plant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol. | Ceir unigolion sydd yn derbyn y gwasanaeth lawer o gefnogaeth i gynnal eu hiechyd a llesiant. Mynychwyd apwyntiadau meddygol rheolaidd a profion llawn flynyddol.Trefnwyd apwyntiadau eraill megis ceiropodydd a chlinigau arbenigol fel clefydd siwgr, clinig cof, clinig codwm, cefnogaeth galar, optegydd, deintydd, a chefnogaeth gan y Seicolegydd.Mae proses ble mae staff yn codi unrhyw bryderon meddygol gyda Rheolwr y tŷ neu’r Uwch-Rheolwr Gwasanaeth – sydd wedyn yn ei gyfeirio ymlaen i Wasanaeth Iechyd / Gwasanaethau Cymdeithasol. Trefnir apwyntiadau meddygol yn syth yn dibynnu ar y pryder neu’r salwch mewn rhai achosion. Mae cyfrifoldeb ar y staff i lenwi ffurflenni ABC ar gyfer ymddygiad neu bryderon. Mae’r ffurflenni wedyn yn cael eu cyfeirio ymlaen i Wasanaethau Cymdeithasol / Iechyd. Ceir cyfarfodydd CAD eu trefnu i drafod cyflyrau unigolion. Mae cyfeiriadau yn cael eu gwneud hefyd i Wasanaethau Cymdeithasol petai dirywiad/ newid yn ymddygiad unigolyn. Rydym yn hybu annibyniaeth yr unigolion drwy wrando ar ddymuniadau ac yn gweithredu arnynt drwy gymryd risgiau sydd yn rhoi canlyniad positif i’r Unigolyn drwy ddefnyddio dull amlddisgyblaethol -er enghraifft, unigolyn yn cael rhagor o amser ar ben ei hun heb gefnogaeth staff. Mynychodd unigolion grŵp meddwlgarwch gyda CD o Brifysgol Bangor – mae’r sesiynau yn ddefnyddiol iawn ac yn ategu at llesiant meddyliol ein hunigolion a staff. Dwedodd un unigolyn fod y gwasanaeth wedi ei helpu i gyflawni beth sy’n bwysig iddi – sef “Dysgu cogino...cadw’n heini”– fe wnaeth gael prynu “oriawr newydd i gadw’n heini”.Trefnwyd ddigwyddiadau megis Pantomeim, sesiynau coginio, cerdd, carioci, ystafell synhwyraidd,beicio, nofio, a gwylltgrefft (bwyta malow melys a chynnau tân) ar gyfer unigolion ag anableddau dwys o fewn y cyfnod. Anogir cyfleoedd i unigolion gael bod yn rhan o sgyrsiau sy’n ymwneud â’u gofal – megis rhoi cynnig iddynt fynychu cyfarfod tenantiaeth a hefyd bod yn rhan o benderfyniadau cyflogaeth megis bod yn rhan o’r broses recriwtio. Mae Cofid wedi amharu gryn dipyn ar y cyfleoedd hyn yn y blynyddoedd diwethaf, ond rydym yn gobeithio ail-sefydlu’r drefn hyn. Nid ydym ychwaith wedi bod yn cynnig gwyliau dramor, ond mae sawl unigolyn wedi mynegi diddordeb i fynd ar wyliau mewn awyren. Rydym yn gobeithio gwireddu eu dymuniad cyn bo hir, a bydd hyn yn bosib hefo asesiadau risg cynhwysfawr a chynllunio manwl gan yr Is-reolwyr. Mae rhai unigolion wedi mynegi diddordeb mewn byw ar eu pen eu hunain, heb gyd-gymydog. Y cam nesaf yn y broses ymgynghori fydd trafod pwyntiau a godwyd gan yr unigolion. Y bwriad yw trefnu cyfarfodydd Is-reolwyr i drafod yr adborth cyn wedyn trefnu cyfarfodydd hefo gweithwyr cymdeithasol yr unigolion, gan gynnwys yr eiriolwr a hefyd y swyddog sy’n rheoli eu harian. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | Mae diogelu unigolion yn flaenoriaeth; i sicrhau diogelwch unig olion rydym yn dilyn cod ymarfer gofal ac mae ein proses recriw tio yn dynn. Yn dilyn cynnig swydd rydym yn sicrhau gwiriad uw ch GGD llawn i holl staff yr Antur, a proses o ofyn am eirda gan ddau gyn-gyflogwr. Mae pob aelod staff yn mynychu hyfforddia nt diogelu mandadol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i chwythu' r chwiban; mae gennym bolisi Diogelu, a polisi ffiniau proffesiyn ol. Rydym yn gweithredu'n syth ar unrhyw achos sydd yn codi a c yn dryloyw ac yn agored o ran materion Diogelu, yn cyfeirio p ob achos ymlaen i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, Gwasanaeth au Cymdeithasol, AGC ac yn gadael i GCC wybod parthed ach osion archwilio a disgyblu. Yn ddibynnol ar gyfarfodydd strateg ol, rydym yn ymchwilio pob achos yn llawn ac yn adrodd yn ôl i'r Asiantaethau priodol o ran diweddariad a chanlyniadau ein har chwiliadau. Ar ddiwedd y broses diogelu, mae Antur Waunfawr ar y cyd â'r Gwasanaeth cymdeithasol yn ymateb yn ôl i'r unigol yn o ran ei ddiweddaru am unrhyw benderfyniadau. Rydym yn gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol – sydd yn cynnwys gwe ithio'n agos gydag unigolion a theuluoedd unigolion, ein comisi ynwyr ac hefyd yn trefnu cefnogaeth i'r unigolion. Mae unigolio n yn ymwybodol o'u hawliau a'r drefn gwyno ac mae rheolwyr y n sicrhau bod risgiau i'r unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth y n cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol. Mae Rheolwyr yn monitro perfformiad eu staff pob 2-3 mis (ac yn mynd drwy'r broses eu hunain), yn cwblhau arolygiaethau er mwyn annog staff a datbl ygu sgiliau a chryfderau ac i sicrhau gwella parhaus o fewn adr annau; mae adolygiadau blynyddol hefyd yn cymryd lle. Caiff st aff ddigon o gyfle i godi unrhyw bryderon, ac fe ddatblygir y ber thynas hefo'r staff o ganlyniad i fentora, anogaeth cyson ac aw yrgylch agored yn y gweithle. Mae un Unigolyn sydd yn derbyn y gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gadw yn ddiogel ar lein yn dilyn cyfeirio ymlaen i Diogelu. Enghraifft arall o ymarf er da yw ein cyfarfodydd mewnol sydd yn trafod meddyginiaeth. Caiff meddyginiaeth unigolion eu monitro ar Access Planning, g an ein rhybuddio am ddiffyg cydymffurfio ac unrhyw esgeulusto d. Gall y wybodaeth mae'r staff yn bwydo i'r feddalwedd hyd yn oed fonitro ymddygiad, unrhyw newid (corfforol/meddyliol) Unig olion, sydd wedyn yn cael ei rannu hefo Gwasanaethau Cymdei thasol er budd gwarchod Unigolion. Rydym yn egluro i'r unigolio n y rhesymau yr ydym yn monitro iechyd a diogelwch pan yn gw neud archwiliadau tai er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel ac maent yn ganolog o ran penderfyniadau. Does dim cymdeithasu hefo unigolion y tu allan i oriau gwaith, defnydd anweddus o ffonau s ymudol, recordio/tynnu lluniau heb ganiatad, ac rydym yn sicrh au fod staff yn darllen a deall cynlluniau gofal ac yn llofnodi. |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Nifer y swyddi a throsiant staff

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn yn y gwasanaeth (ar 31 Mawrth) | 34.85 |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am bob math o staff gan gynnwys gwybodaeth am nifer y swyddi sydd wedi'u llenwi ac sy'n wag, yr hyfforddiant a gafwyd, y trefniadau cytundebol sydd ar waith a chymwysterau'r staff hynny.

Dylai'r wybodaeth a gofnodir ymwneud â'r cyfnod y mae'r aelod o staff wedi bod yn gweithio i'r darparwr yn unig.

| | | |
|---|---|---|
| Y Math o Staff | Rheolwr y gwasanaeth | |
| | A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 2 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 0 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 2 |
| Codi a Chario | 0 |
| Diogelu | 1 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 0 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Anhwylder integreiddio a phrosesu synhwyraidd<br>Gwella Gwasanaethau i Oedolion ag Anableddau D ysgu a Phobl Awtistig<br>Cwrs Cyfathrebu<br>Gwella Gwasanaethau i Oedolion ag Anableddau D ysgu ac Awtistiaeth<br>Deddf Galluedd Meddyliol<br>Hyfforddiant Makaton<br>Iechyd a Lles Dynion |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 2 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 2 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 2 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 0 |

Dirprwy reolwr y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 3 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 2 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 1 |
| Codi a Chario | 1 |
| Diogelu | 0 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 1 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Goruchwyliaeth i Reolwyr<br>Lleihau Arferion Cyfyngol<br>Meddwlgarwch a Lles Anableddau Dysgu<br>Diogelwch Tan<br>Deddf Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 3 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 2 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 1 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 0 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 3 |

Aelodau eraill o staff goruchwylio

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 1 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 1 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 0 |
| Codi a Chario | 0 |
| Diogelu | 1 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 0 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Therapi Atgyrch Weithredol<br>Hyfforddiant Synhwyraidd<br>Cwrs Cyfathrebu a llenwi ABC<br>Makaton |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 1 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 1 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol | 1 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 0 |

### Uwch-weithwyr gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

### Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 7 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

### Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 4 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 0 |
| Codi a Chario | 2 |
| Diogelu | 0 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 2 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Dysffagia 4 awr<br>Cwrs Cyfathrebu a Llenwi ABC<br>Gweithdy Makaton Lefel 1<br>Hyfforddiant Midazolam<br>Hyfforddiant Bws Mini<br>Cwrs Cyfathrebu a Llenwi ABC |

### Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 7 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

### Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 5 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 2 |

### Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol | 7 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 0 |

## Gweithwyr gofal cymdeithasol eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

### Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

### Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 32 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 6 |
| Iechyd a Diogelwch | 26 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 0 |
| Codi a Chario | 12 |
| Diogelu | 8 |
| Dementia | 1 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 7 |
| Hylendid Bwyd | 24 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Makaton<br>Dysffagia<br>Therapi Atgyrch Weithredol |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 32 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 9 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 16 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 7 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol | 28 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 4 |

| Mathau eraill o staff | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys unrhyw fathau o rolau ychwanegol ar wahân i'r rheini a gaiff eu rhestru eisoes? | Ie |
| Rhestrwch deitl(au) y rôl a disgrifiad byr o gyfrifoldebau'r rôl. | Rheolwraig Gweinyddol - Cynorthwyo'r Person Cyfrifol a'r Rheolwyr Cofrestredig gyda gofynion AGC<br><br>Rheolwraig Cydymffurfio ac Ansawdd - Sicrhau bod yr Adran Adnoddau Dynol yn cydymffurfio efo gofynion rheoliadau AGC, gan bresenoli ac ymateb i ymholiadau penodol yn archwiliadau statudol AGC.<br><br>Rheolwraig Adnoddau Dynol - Sicrhau bod yr Adran Adnoddau Dynol yn cydymffurfio efo gofynion rheoliadau AGC, gan bresenoli ac ymateb i ymholiadau penodol yn archwiliadau statudol AGC. |

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 3 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 3 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 2 |
| Codi a Chario | 0 |
| Diogelu | 2 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 0 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Ymwybyddiaeth Menopos<br>Cyfweliadau Gwarantedig<br>Sesiwn Ymwybyddiaeth Sgrinio<br>Diogelu Data<br>Diogelwch Tan |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 3 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 2 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 1 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol | 3 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 0 |